WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Arlwyo mewn Ysbytai: Adolygiad dilynol

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 279A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Sue Lloyd oedd yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn 2010, ond mae angen iddo wella rhai materion, yn enwedig monitro'r llwybr gofal maeth a hyfforddi staff ar y ward.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 5 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Mae trefniadau i gefnogi gwaith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd a rheoli gwasanaethau arlwyo wedi'u cryfhau, ond nid yw'r strwythurau presennol yn cefnogi rheoli integredig | 7 |
| Mae BIP wedi sefydlu fforwm Hanfodion Gofal ac mae systemau ar waith i rannu arferion da ac arloesi | 8 |
| Mae BIP wedi lleihau'r cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion ac wedi lleihau gwastraff bwyd | 9 |
| Mae trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i'r ward wedi gwella, ond mae salwch wedi oedi'r broses o gyflwyno hyfforddiant yn llawn, ac nid yw amserau bwyd yn cael eu diogelu bob amser | 12 |
| Mae BIP yn gwella ei berfformiad o ran diwallu anghenion maeth, ond nid yw'n gwneud y defnydd gorau o gynorthwywyr deietegol eto, nac yn monitro prosesau i gefnogi gofal maeth yn ddigonol | 14 |
| Mae BIP wedi cryfhau'r broses o rannu gwybodaeth rhwng staff y ward a staff arlwyo, ac mae cleifion yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau | 18 |
| **Atodiadau** | |
| Canfyddiadau o waith archwilio lleol 2010 | 20 |
| Argymhellion o'r gwaith archwilio lleol | 21 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol o'r enw *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai*[1]. Cafodd yr adroddiad ei lywio gan ein harolwg o arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai ledled Cymru, a defnyddiwyd hyn i adrodd canfyddiadau archwilio lleol ar gyfer yr holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

**2.** Daeth ein hadroddiad cenedlaethol i'r casgliad bod trefniadau arlwyo a gofal maeth ar gyfer cleifion wedi gwella'n gyffredinol ers astudiaeth y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2002, ac mae boddhad cleifion yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei weithredu'n ehangach, yn enwedig o safbwynt sgrinio cleifion i ganfod anghenion maethol a chynllunio gofal, a sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau.

**3.** Yn 2010, lluniwyd adroddiad lleol gennym ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP). Yn gyffredinol, er bod y trefniadau arlwyo yn amlygu llawer o arferion da, canfuwyd nad oeddent yn cael eu gweithredu'n gyson y tu mewn i ysbytai ac ar draws ysbytai. Nododd ein hadroddiad fod yr anghysondebau'n deillio o gyfathrebu gwael rhwng y grwpiau staff gwahanol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, a allai effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd llawer o'r meysydd yr oedd angen eu gwella yn debyg i'r rhai a nodwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Mae Atodiad 1 yn disgrifio casgliadau adroddiad lleol 2010 yn fanylach, ac mae Atodiad 2 yn nodi'r argymhellion a wnaethom ar y pryd.

**4.** Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2013, gwnaethom waith dilynol i ganfod a yw BIP yn gallu dangos gwelliannau o safbwynt cynllunio a darparu gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn ein hadroddiadau lleol a chenedlaethol blaenorol[2].

**5.** Rydym wedi dod i'r casgliad bod BIP yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd yn 2010, ond mae angen iddo wella rhai materion, yn enwedig monitro'r llwybr gofal maeth a hyfforddi staff ar y ward. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y rhesymau canlynol:

- mae trefniadau i gefnogi gwaith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd a rheoli gwasanaethau arlwyo wedi'u cryfhau, ond nid yw'r strwythurau presennol yn cefnogi rheoli integredig;
- mae BIP wedi sefydlu fforwm Hanfodion Gofal ac mae systemau ar waith i rannu arferion da ac arloesi;

[1] I weld yr adroddiad ewch i: www.wao.gov.uk/cy/system/files/publications/Hospital_Catering_and_Patient_Nutrition_Welsh_2011.pdf

[2] Roedd ein gwaith archwilio yn cynnwys cyfweliadau â nifer o staff allweddol BIP, ac adolygiad o wybodaeth a dogfennau ariannol.

- mae BIP wedi lleihau'r cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion ac wedi lleihau gwastraff bwyd;
- mae trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i'r ward wedi gwella, ond mae salwch wedi oedi'r broses o gyflwyno hyfforddiant yn llawn, ac nid yw amserau bwyd yn cael eu diogelu bob amser;
- mae BIP yn gwella ei berfformiad o ran diwallu anghenion maeth, ond nid yw'n gwneud y defnydd gorau o gynorthwywyr deietegol eto, nac yn monitro prosesau i gefnogi gofal maeth yn ddigonol;
- mae BIP wedi cryfhau'r broses o rannu gwybodaeth rhwng staff y ward a staff arlwyo, ac mae cleifion yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau.

## Argymhellion

**6.** Mae'r argymhellion canlynol wedi codi o'r adolygiad dilynol hwn.

**Cynllunio strategol a threfniadau rheoli**

A1 Yn dilyn adolygiad diweddar y pwyllgor, dylai BIP sicrhau bod y llinellau adrodd ar gyfer y grwpiau maeth ac arlwyo allweddol, gan gynnwys y Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd, yn dwyn ynghyd yr holl faterion sy'n ymwneud â maeth ac arlwyo ac yn creu llinell adrodd unigol i'r Bwrdd.

**Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

A2 Dylai'r Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion ganolbwyntio mwy ar ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn cyrraedd y targed o gymhorthdal sero ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion.

A3 Fel rhan o'r gwaith o leihau gwastraff bwyd, dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar ansawdd fel nad yw lleihau gwastraff yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bwyd.

**Dosbarthu bwyd i'r ward**

A4 Er mwyn helpu i gyflwyno hyfforddiant ar gyfer staff arlwyo ar y ward, dylai'r Bwrdd ddatblygu trefniant dirprwyo i sicrhau bod yr amserlen hyfforddiant yn parhau os yw staff yn sâl.

A5 Mae'n rhaid i BIP ganolbwyntio mwy ar y cynllun gweithredu Hanfodion Gofal sy'n deillio o archwiliadau amser bwyd, er mwyn sicrhau bod amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei sefydlu'n llawn ar bob ward.

**Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

A6 Dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau sefydlu asesiad parhaus o'r manteision o helpu i fwydo cleifion amser bwyd drwy swydd fel cynorthwyydd deietegol neu gynorthwyydd gofal iechyd.

A7 Dylai'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo ystyried canfyddiadau cynllun peilot yr offer archwilio fel mater o flaenoriaeth fel bod modd cyflwyno trefniadau monitro ar draws y wardiau mewn modd amserol.

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau i gefnogi gwaith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd a rheoli gwasanaethau arlwyo wedi'u cryfhau, ond nid yw'r strwythurau presennol yn cefnogi rheoli integredig

**7.** Un o argymhellion ein harchwiliad yn 2010 oedd y dylai'r Bwrdd dderbyn gwybodaeth fwy ystyrlon am y gwasanaethau arlwyo er mwyn gallu craffu, rheoli risgiau a monitro perfformiad yn effeithiol.

**8.** Rhwng 2010 a'r archwiliad dilynol hwn, mae Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Nyrsio (CGGN) wedi arwain y gwaith o ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fesur cynnydd mewn gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnwys:

- gwastraff bwyd mewn ysbytai unigol, gyda tharged o bump y cant ar gyfer gwastraff, a tharged o ddim mwy na £2.93 y claf ar gyfer cost bwyd;
- perfformiad ariannol ar gyfer holl safleoedd gwasanaeth arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion, gyda tharged i ddarparu bwyd i bobl nad ydynt yn gleifion mewn ffordd sy'n niwtral o ran cost; a
- chydymffurfio â'r Safonau Hanfodion Gofal, yn enwedig Safon 9 sy'n cyfeirio at yfed a bwyta.

**9.** Mae'r system adrodd ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn amrywio.

**10.** Cyflwynodd BIP ddau grŵp newydd i weithredu gwelliannau i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau arlwyo a maeth. Y grwpiau hyn yw'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd sy'n mynd i'r afael â gwastraff bwyd mewn ysbytai unigol, a'r Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion sy'n asesu perfformiad ariannol yr holl safleoedd arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. Mae'r ddau grŵp yn adrodd i'r Grŵp Rheoli Gweithredol, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

**11.** Mae'r Is-adran Nyrsio yn arwain y gwaith o archwilio amserau bwyd wedi'u diogelu a pherfformiad yn erbyn safonau Hanfodion Gofal (gan gynnwys Safon 9 – Yfed a Bwyta). Mae Grŵp Llywio Hanfodion Gofal (sy'n cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) yn cyfeirio pob gweithred yn ymwneud ag yfed a bwyta i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo sydd ar waith o hyd. Cynhelir archwiliad o Hanfodion Gofal bob blwyddyn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Adroddir canlyniadau'r archwiliad hwn a'r cynllun gweithredu yn uniongyrchol i'r Bwrdd ym mis Ionawr bob blwyddyn.

**12.** Hyd at fis Ionawr 2013, roedd y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo yn adrodd i is-bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd. Mae'r trefniant hwn wedi'i ddiwygio yn sgil adolygiad diweddar o strwythurau pwyllgorau. Erbyn hyn, mae'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo yn adrodd ac yn rhoi sicrwydd yn uniongyrchol i'r CGGN, sydd yn ei dro'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ar y mater hwn. Mae'r system hon ar fin cael ei chwblhau.

13. Mae'r systemau adrodd gwahanol ar gyfer y grwpiau presennol yn arwain at elfen o anghysondeb. Er mai'r CGGN yw'r ffactor cyffredin, caiff llawer o faterion eu rheoli drwy'r Grŵp Llywio Maeth ar Arlwyo, ac eraill drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd, sy'n adrodd yn uniongyrchol i OMG. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y strwythurau grŵp sydd ar waith i helpu i reoli materion maeth ac arlwyo, yn enwedig yn dilyn y newidiadau i'r trefniadau adrodd ar gyfer y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo. Byddai hyn yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu dwyn ynghyd i lywio gwaith y CGGN, ac ar ôl hynny gwaith y Bwrdd.

## Mae BIP wedi sefydlu fforwm Hanfodion Gofal ac mae systemau ar waith i rannu arferion da ac arloesi

14. Fel rhan o'r broses o rymuso rheolwyr wardiau o dan drefniadau Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu[3], un o'n hargymhellion yn 2010 oedd y dylai BIP sefydlu fforwm hanfodion gofal i sicrhau bod materion yn ymwneud â rheoli maeth yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr enghreifftiau niferus o arfer da ac arloesi yn cael eu rhannu.

15. Y CGGN yw'r aelod o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wasanaethau arlwyo a maeth, ac mae hi wedi dirprwyo cyfrifoldeb am agweddau ar y gwasanaethau arlwyo a maeth i'w thîm. Mae'r cyfrifoldebau dirprwyedig yn cynnwys cadeirio'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo, rheoli cydymffurfiaeth â'r safonau Hanfodion Gofal, a phrofiad cleifion.

16. Erbyn hyn, mae BIP wedi sefydlu Grŵp Llywio Hanfodion Gofal. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r wardiau drwy'r nyrsys arwain is-adrannol. Mae'n cynnal Archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol ar bob ward ac yn cyflwyno adroddiad a chynllun gweithredu i'r Bwrdd ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r agweddau maeth ar Hanfodion Gofal, yn enwedig mewn perthynas â Safon 9, hefyd yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo, a'u rheoli ganddo. Mae'r Grŵp hwn yn adrodd i'r CGGN wedyn.

17. Bob blwyddyn, mae BIP yn nodi arferion da ac arloesi ym maes rheoli maeth, ac yn rhannu'r profiad â rhanddeiliaid allweddol drwy rwydweithiau a chynadleddau cenedlaethol, yn ogystal â thrwy systemau mewnol fel y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo a hyfforddiant mewnol. Yn ogystal, cymerodd cynrychiolwyr o BIP ran yn seminar arfer da 'Cnoi Cil' Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2012.

[3] *Rhyddid i Arwain*, *Rhyddid i Ofalu*, adroddiad a gyhoeddwyd yn 2008 â'r nod o ddatblygu egwyddorion gofal nyrsio effeithiol a rhoi rhagor o rym i brif nyrsys ward.

# Mae BIP wedi lleihau'r cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion ac wedi lleihau gwastraff bwyd

## Mae BIP wedi lleihau cost cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion, ond roedd angen iddo roi camau sylweddol ar waith i leihau lefel y cymhorthdal i sero erbyn diwedd mis Mawrth 2013

**18.** Un o argymhellion ein gwaith archwilio yn 2010 oedd y dylai BIP gyflwyno polisi clir ar gymhorthdal i bennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion.


**19.** Mae'r strategaeth ariannol ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion ar bob safle yn cael ei harwain gan y Grŵp Cymhorthdal Bwytai nad ydynt ar gyfer Cleifion. Datblygodd y grŵp gynllun gweithredu i leihau'r cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion, gan ei gyflwyno i'r OMG ym mis Ionawr 2012. O ganlyniad, cytunwyd i wneud y canlynol:

- lleihau amserau agor bwytai Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) ac Ysbyty Athrofaol Llandochau (YALl);
- cyflwyno model gwasanaeth diwygiedig;
- cadw cyfrifon elw a cholled ar gyfer pob lleoliad; ac
- ystyried dulliau darpariaeth amgen gan gynnwys breinio a gosod gwasanaethau ar gytundeb i ddarparwyr allanol.

**20.** Datgelodd gwybodaeth ar gyfer safleoedd ysbytai acíwt a adroddwyd i Ystadau Iechyd Cymru fel rhan o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) mai tua 18 y cant oedd lefel y cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion yn YAC ac YALl yn 2011-12 (Ffigur 1).

**21.** Ym mis Chwefror 2013, yr amcangyfrif ar gyfer cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 oedd £158,419. Mae hyn yn ostyngiad o 54% yn y cymhorthdal o gymharu ag adroddiad archwiliad 2010. Fodd bynnag, roedd angen rhagor o gamau gweithredu er mwyn lleihau'r cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion i sero erbyn 31 Mawrth 2013.

Ffigur 1: Canran cymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion yn ysbytai Cymru ar gyfer 2011-12




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystad y GIG yng Nghymru 2011-12*


## Mae BIP wedi datblygu ei drefniadau monitro gwastraff bwyd, ac mae lefel y gwastraff ledled y Bwrdd Iechyd yn lleihau

**22.** Dangosodd ein harchwiliad yn 2010 y gallai BIP arbed tua £250,000 drwy leihau gwastraff bwyd o brydau heb eu gweini i 5 y cant, a lleihau gwastraff ar blatiau i 10%. Un o argymhellion ein hadroddiad oedd y dylai BIP wella'r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro er mwyn cofnodi'r lefel o brydau heb eu gweini yn gywir, a nodi'r potensial i wella systemau presennol fel bod modd gosod targedau gwastraff bwyd.

**23.** Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Gwastraff Bwyd sydd bellach yn arwain y gwaith o fonitro gwastraff bwyd. Mae'r grŵp yn adolygu gwastraff bwyd mewn ysbytai unigol ac yn adrodd yn erbyn targed o ddim mwy na phump y cant ar gyfer gwastraff bwyd, fel y nodir yn y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer arlwyo a maeth.

**24.** Dangosodd gwybodaeth a adroddwyd drwy'r EFPMS fod lefel y gwastraff bwyd ledled BIP yn 2011-12 yn 9.45 y cant. (9.5 y cant yn YAC ac wyth y cant yn YALl (Ffigur 2)). Roedd gwastraff bwyd yn 6.16 y cant ar gyfartaledd ar holl safleoedd ysbytai acíwt.

Ffigur 2: Canran prydau cleifion a wastraffwyd ar safleoedd ysbytai acíwt yn 2011-12




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystad y GIG yng Nghymru 2011-12*

**25.** Mae gwybodaeth sy'n deillio o ddangosyddion perfformiad allweddol BIP yn awgrymu bod lefel y gwastraff bwyd ar gyfartaledd ar safleoedd y ddau brif ysbyty acíwt wedi gwella yn ystod 2012-13. Nodwyd bod lefel y gwastraff bwyd yn YAC yn 6.2 y cant ym mis Chwefror 2013, ac yn 5.4 y cant yn YALl. Roedd cyfanswm y gwastraff bwyd ar gyfer BIP wedi lleihau hefyd i tua chwech y cant[4].

**26.** Mae'r gostyngiad yn y lefelau o wastraff bwyd yn gam pwysig o ran rheoli costau, ond mae'n hollbwysig bod BIP yn hyderus nad yw'r gostyngiad mewn gwastraff bwyd wedi'i gyflawni drwy gael effaith negyddol ar ansawdd a dewis prydau cleifion. Dylid ystyried adborth gan gleifion fel rhan o unrhyw gynlluniau i leihau gwastraff yn y dyfodol.

[4] Nid yw dangosyddion perfformiad allweddol BIP yn cynnwys ffigur sy'n crynhoi'r sefyllfa yn gyffredinol, ond yn hytrach maent yn cynnwys ffigur sy'n crynhoi pob un o'r categorïau canlynol – acíwt, iechyd meddwl a chymuned. Ym mis Chwefror 2013, nodwyd bod gwastraff bwyd yn 5.8 y cant ar gyfer acíwt, 6.0 y cant ar gyfer iechyd meddwl a 5.88 y cant ar gyfer cymuned.

# Mae trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i'r ward wedi gwella, ond mae salwch wedi oedi'r broses o gyflwyno hyfforddiant yn llawn, ac nid yw amserau bwyd yn cael eu diogelu bob amser

## Mae BIP wedi cyflwyno hyfforddiant maeth sylfaenol, ond oherwydd absenoldeb salwch, nid yw wedi cyflwyno'r hyfforddiant yn llawn ar gyfer staff arlwyo ar y ward

**27.** Nododd ein hadroddiad yn 2010 fod BIP yn darparu bwyd o ansawdd da ar gyfer cleifion, ond y gellid gwella profiad cleifion drwy newid rhai arferion presennol a gwella cyfathrebu rhwng staff mewn rhai meysydd. Yn benodol, argymhellwyd y dylai BIP gyflwyno maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward.

**28.** Mae rhaglen ailhyfforddi mewn maeth sylfaenol wedi'i datblygu ar gyfer staff goruchwylio a staff arlwyo ar y ward. Erbyn mis Awst 2012, roedd holl staff goruchwylio YAC ac YALl wedi mynychu'r hyfforddiant.

**29.** Roedd rhaglen dreigl i hyfforddi holl staff arlwyo ar y ward i fod i gael ei chwblhau erbyn 31 Mawrth 2013. Roedd hyfforddiant ar gyfer staff arlwyo ar y ward ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn unol â'r amserlen yn YAC, ond cafwyd oedi yn YALl gan nad oedd yr hyfforddwr ar gael oherwydd salwch. Byddai'n fanteisiol rhoi trefniant dirprwyo ar waith ar gyfer y rhaglen hyfforddi staff arlwyo ar y ward rhag ofn bod staff yn mynd yn sâl.

## Mae systemau cydymffurfio ar waith, ond nid yw amserau bwyd wedi'u diogelu wedi cael eu sefydlu'n llawn eto

**30.** Yn 2010, roedd yr agwedd at amser bwyd wedi'i ddiogelu yn amrywiol iawn ac nid oedd yn cael ei weithredu mor eang ag yr oedd data BIP yn ei awgrymu. Argymhellwyd y dylai BIP gyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar bob ward lle byddai hynny'n briodol.

**31.** Mae archwiliadau ciplun o amserau bwyd wedi'u diogelu bellach yn cael eu cynnal ym mhob maes clinigol er mwyn monitro cydymffurfiaeth â gofynion Safon 9 o'r Hanfodion Gofal.

**32.** Yn ôl yr archwiliadau ciplun a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2012, rhoddwyd y gorau i weithgareddau clinigol nad oeddent yn rhai brys yn amgylchedd y claf yn ystod amser bwyd ar 90 y cant (61) o'r wardiau. Mae'r 10 y cant (7) o wardiau eraill yn parhau i gynnal gweithgareddau clinigol nad ydynt yn rhai brys ac nid ydynt yn diogelu amser bwyd. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys:

- amseru rowndiau meddygol;
- amseru asesiadau bwydo ac asesiadau Therapi Lleferydd ac Iaith sydd eu hangen yn ystod amserau bwyd;
- ymwelwyr sydd wedi teithio o bell ac sy'n cael aros ar y ward;
- derbyn a rhyddhau cleifion yn gyson oherwydd natur y ward, er mai ychydig iawn o aflonyddu sydd ar gleifion sy'n bwyta.

**33.** Nododd un ward fod ymyriadau'n digwydd, ond ni eglurodd eu natur, a methodd ward arall â rhoi unrhyw reswm pam nad oedd yn diogelu amserau bwyd.

**34.** Yn ôl archwiliad blaenorol o amserau bwyd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2011, rhoddwyd y gorau i'r holl weithgareddau clinigol nad oeddent yn rhai brys yn amgylchedd y claf yn ystod amser bwyd ar 88 y cant o'r wardiau, sy'n dangos bod ychydig o welliant wedi bod.

**35.** Yn ôl yr archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn 2012 fel rhan o fonitro Hanfodion Gofal ac ymweliadau Uwch Nyrsys â wardiau, ni sefydlwyd amserau bwyd wedi'u diogelu ym mhob ardal, ac roedd gweithgareddau nyrsio yn parhau lle'r oedd cleifion yn bwyta. Mae data'r archwiliad yn ategu'r canfyddiad hwn. O ganlyniad, nododd Cynllun Gweithredu Hanfodion Gofal BIP 2012 fod angen ailystyried amserau bwyd wedi'u diogelu. Hyd yn hyn, nid yw'r cynllun gweithredu wedi arwain at welliant sylweddol yn nifer y wardiau sy'n darparu amgylchedd amser bwyd sydd wedi'i ddiogelu rhag gofal clinigol nad yw'n ofal brys.

## Mae prosesau cyfathrebu yn ymwneud ag anghenion deietegol unigol wedi gwella yn YALl drwy ddefnyddio'r cynllun gwelyau

**36.** Nododd ein hadolygiad diwethaf fod trefniadau ar gyfer sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd o fwyd cywir ar gyfer eu hanghenion deietegol yn fwy cadarn yn YAC nag yn YALl. O ganlyniad, argymhellwyd y dylai YALl wella prosesau cyfathrebu a threfniadau monitro ansawdd y gwasanaeth arlwyo er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**37.** Yn 2010, roedd YAC wedi mabwysiadu system cynllunio gwelyau a oedd yn nodi gofynion deietegol pob claf. Mae'r system hon bellach wedi'i datblygu a'i chyflwyno i gefnogi prosesau cyfathrebu ledled YALl er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y pryd o fwyd cywir ar gyfer eu hanghenion deietegol bob amser. Ym mis Mehefin 2012, nodwyd bod cydymffurfiaeth YALl wedi cyrraedd 100 y cant.

**38.** Ni amlygwyd problemau cyfathrebu eraill mewn rhannau eraill o BIP gan ein harchwiliad yn 2010; fodd bynnag, mae dull gweithredu cyson yn fanteisiol, ac mae'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo bellach yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynllun gwelyau mewn ardaloedd eraill.

## Mae BIP yn gwella ei berfformiad o ran diwallu anghenion maeth, ond nid yw'n gwneud y defnydd gorau o gynorthwywyr deietegol eto, nac yn monitro prosesau i gefnogi gofal maeth yn ddigonol

### Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o safbwynt ymestyn gwaith cynorthwywyr deietegol ledled BIP, ac er bod cyfraniad staff nyrsio wedi cynyddu, mae cyflymder y gwasanaeth yn peri problemau o hyd, gan arwain at bryderon ynglŷn â thymheredd bwyd

**39.** Nododd yr adroddiad diwethaf bod rhai wardiau'n well nag eraill am sicrhau bod arlwyo a maeth yn cefnogi gwellhad cleifion. Yn uned derbyniadau meddygol YAC, nodwyd bod cynorthwywyr deietegol penodedig yn enghraifft o arfer da, ac argymhellwyd y dylid gweld beth fyddai manteision gwneud mwy o ddefnydd o gynorthwywyr deietegol fel rhan o'r strategaeth maeth ac arlwyo newydd.

**40.** Fel rhan o'r strategaeth maeth ac arlwyo newydd, argymhellwyd hefyd y dylai BIP geisio cryfhau a chyflymu'r gwasanaeth amser bwyd drwy sicrhau bod mwy o staff ar gael neu drwy gael y staff nyrsio i gymryd mwy o ran.


**41.** Mae ehangu'r defnydd o gynorthwywyr deietegol i gefnogi'r wardiau yn ystod amser bwyd wedi'i ystyried yng nghyd-destun cynllunio busnes a gofal cleifion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau yn ystyried gweithiwr gofal cyffredinol yn hytrach na chynorthwyydd deietegol penodedig.

**42.** Drwy'r grŵp Hanfodion Gofal, mae cyfraniad staff nyrsio at ddarparu maeth i gleifion yn cael ei atgyfnerthu drwy'r fenter Gadael Popeth a Bwydo. Mae'r fenter hon yn pwysleisio pwysigrwydd cynorthwyo cleifion i fwyta, ac mae wedi'i chyflwyno ar wardiau yn Ysbyty Dewi Sant, gyda'r posibilrwydd o'i gyflwyno mewn ardaloedd eraill.

**43.** Mae BIP wedi cyflwyno ymweliadau amser bwyd dirybudd gan y nyrs arwain neu'r uwch nyrs ar gyfer yr ardal, ynghyd â dau holiadur profiad cleifion sy'n rhoi adborth ar ansawdd y gwasanaeth bwyd. Arweiniodd un ymweliad dirybudd at newid amser dosbarthu bwyd i'r ward, a gwelliant o ran boddhad cleifion â thymheredd y bwyd.


**44.** Nododd yr Adroddiad Dinasyddion diweddar bod tua 60 y cant o gleifion yn fodlon â thymheredd y bwyd, a bod hon yn fwy o broblem yn YALl. Er bod dros 80 y cant o gleifion yn YAC ac YALl yn dweud eu bod yn cael dewis bob amser, nododd yr adroddiad hefyd bod llai na 50 y cant o gleifion yn dweud bod y bwyd yn flasus (Ffigurau 3 a 4).

Ffigur 3: Adborth Bwyd Ysbyty YAC 2012




*Ffynhonnell: Adroddiad Dinasyddion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2012*

Ffigur 4: Adborth Bwyd Ysbyty YALl 2012




*Ffynhonnell: Adroddiad Dinasyddion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2012*

**45.** Yn sgil yr Adroddiad Dinasyddion, mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â blas a thymheredd bwyd yn cael ei ddatblygu.

## Erbyn hyn, mae BIP yn monitro'r defnydd o'r system hambwrdd coch, ac er bod rhywfaint o anghysondeb o hyd o ran ei gweithredu, mae camau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod dryswch ymysg staff yn cael ei leihau

**46.** Yn 2010, roedd y rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r wardiau oedolion yn gweithredu'r system hambwrdd coch i nodi pa gleifion sydd angen cymorth i fwyta. Fodd bynnag, gallai'r dull o weithredu'r system hambwrdd coch amrywio rhwng wardiau unigol gan achosi dryswch pan oedd staff arlwyo'n symud i weithio mewn wardiau gwahanol. Roedd un ward yn treialu system oleuadau traffig am nad oedd rhai cleifion yn hoffi'r system hambwrdd coch. Mantais y dull hwn oedd ei fod yn tynnu sylw staff meddygol at broblemau maeth cleifion.

**47.** Drwy'r fforwm Hanfodion Gofal, argymhellwyd y dylai BIP fonitro effeithiolrwydd y system hambwrdd coch, y dull o'i weithredu a'i ddatblygu, a'r systemau goleuadau traffig newydd.

**48.** Fel rhan o waith y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo, cyflwynwyd safon ar gyfer amserau bwyd wedi'u diogelu a'r cynllun hambwrdd coch yn 2012. Mae'r safon hon yn nodi bod system hambwrdd coch neu system arall i dynnu sylw yn cael ei defnyddio a'i deall ar y ward cyfan er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn cael y gofal mwyaf.

**49.** Ym mis Rhagfyr 2012, derbyniodd y Grŵp Llywio Arlwyo a Maeth ganlyniadau adroddiad archwilio Hanfodion Gofal yn ymwneud â Safon 9 – Yfed a Bwyta. Nododd y canlyniadau hyn gydymffurfiaeth dda â'r safon, gan gynnwys mabwysiadu system tynnu sylw, a nodir yn y sgôr adborth gweithredol yn Ffigur 5. Roedd adroddiad yr archwiliad hefyd yn nodi cydymffurfiaeth dda â'r safon o safbwynt barn cleifion ar effeithiolrwydd y system tynnu sylw, a nodir yn y sgôr adborth gan ddefnyddwyr.

Ffigur 5: Canlyniadau cydymffurfiaeth â Safon 9 Archwiliad Hanfodion Gofal 2012

| | Sgôr 2012 | | Sgôr 2011 | | Sgôr 2010 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adborth gweithredol | Adborth gan ddefnyddwyr | Adborth gweithredol | Adborth gan ddefnyddwyr | Adborth gweithredol | Adborth gan ddefnyddwyr |
| Yfed a bwyta | 90.1% | 91.8% | 90.5% | 90.7% | 90.2% | 91.3% |

*Ffynhonnell: Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo, Rhagfyr 2012*

**50.** Mae canlyniadau'r archwiliadau unigol ar lefel is-adrannol hefyd yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo sy'n cynnwys datblygu systemau amgen i'r system oleuadau traffig, gan gynnwys marciau coch ar y bwrdd neilltuo cleifion. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod systemau tynnu sylw yn cael eu gweithredu ar bob ward, ac er bod dulliau gweithredu'r wardiau yn amrywio, maent yn adlewyrchu'r atebion sydd fwyaf priodol i amgylchedd pob ward. Er y gallai'r dulliau gweithredu gwahanol barhau i beri dryswch ymysg staff arlwyo, mae BIP yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gyflwyno hyfforddiant cynefino lleol ar gyfer yr holl staff ar y wardiau. Bydd y dulliau amrywiol o ddiwallu anghenion cymorth cleifion, gan gynnwys y system hambwrdd coch, yn destun ail archwiliad yn hydref 2013.

## Mae monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth newydd ddechrau, ac er bod cynnwys iechyd y geg a chyfathrebu yn yr offeryn maeth yn ddadleuol, mae BIP yn sicrhau nad yw'r materion hyn yn cael eu diystyru

**51.** Yn 2010, canfuwyd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu sgrinio am broblemau maeth ar adeg eu derbyn, er na ddefnyddiwyd y dull a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, nid oedd y system o sgrinio am broblemau maeth ar y pryd yn cynnwys asesu iechyd y geg na'r gallu i gyfathrebu gan fod y rhain yn asesiadau nyrsio ar wahân. Argymhellwyd y dylai BIP sefydlu trefniadau monitro sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd, ynghyd ag effeithiolrwydd y broses o adolygu siartiau. Argymhellwyd hefyd y dylid gwella'r offeryn asesu maeth i gynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu.

**52.** Mae dietegwyr BIP yn datblygu offeryn archwilio amlddisgyblaethol cynhwysfawr i fonitro bod dogfennau sgrinio maeth sy'n gysylltiedig â'r llwybr gofal maeth wedi'u cwblhau ar y wardiau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd. Nid yw canlyniadau'r broses archwilio wedi'u hadrodd i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo eto, sy'n gorfod dilyn cynnydd i sicrhau bod gweithgarwch sgrinio yn mynd rhagddo yn unol â gofynion Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan.

**53.** Mae cynllun gweithredu arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion Medi 2012 yn nodi y bydd y broses flynyddol o archwilio dogfennau sgrinio maeth yn dechrau yn YAC ac YALl. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo.

**54.** Mae'r Archwiliad Hanfodion Gofal yn cynnwys canlyniadau cydymffurfiaeth â sgrinio maeth a phriodoldeb atgyfeirio. Mae cydymffurfiaeth wedi aros yn ei hunfan dros y tair blynedd diwethaf, a byddai modd gwella cydymffurfiaeth. Mae'r nifer isel o staff nyrsio sydd wedi cwblhau e-ddysgu siartiau cofnodi bwyd sgrinio maeth Cymru gyfan yn effeithio ar ddarpariaeth o bosibl.

**55.** Mae adolygiad o gynllun yr offeryn sgrinio maeth wedi'i gynnal, ac mae'r offeryn wedi'i ddiwygio i sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer pob maes clinigol. Fodd bynnag, nid yw asesu iechyd y geg na'r gallu i gyfathrebu wedi'u cynnwys yn yr offeryn, er bod cyfathrebu'n cael ei asesu adeg derbyn claf fel rhan o'r ddarpariaeth Hanfodion Gofal. Mae trafodaethau'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo yn dangos yn glir bod ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i'r ffaith fod iechyd y geg a chyfathrebu yn elfennau pwysig o ofal cleifion, ond nad yw'r sylfaen dystiolaeth yn dangos cefnogaeth gadarn o blaid eu cynnwys mewn offeryn sgrinio. O ganlyniad, mae Cynllun Gweithredu Iechyd y Geg Cymru Gyfan ar wahân ar gyfer cleifion wedi'i ddatblygu. Mae'r CGGN yn arwain y gwaith o'i weithredu yn BIP.

# Mae BIP wedi cryfhau'r broses o rannu gwybodaeth rhwng staff y ward a staff arlwyo, ac mae cleifion yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau

## Mae BIP wedi cryfhau'r broses o rannu gwybodaeth am safbwyntiau cleifion rhwng rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwyo

**56.** Nododd ein gwaith blaenorol bod safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau bwyd ac arlwyo yn cael eu casglu a'u dadansoddi ar wahân gan staff arlwyo a staff nyrsio. Argymhellodd yr adroddiad y dylai BIP wella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y gwasanaeth arlwyo a rheolwyr wardiau drwy gynnwys y trefniadau presennol sy'n cael eu defnyddio i gael barn cleifion ar y gwasanaeth.

**57.** Ers ein gwaith blaenorol, mae systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth wedi'u cryfhau. Mae BIP yn parhau i gasglu safbwyntiau cleifion drwy fentrau fel yr arolwg o Amgylchedd y Claf a 'Dau Funud o'ch Amser'[5]. Daethom o hyd i dystiolaeth fod materion arlwyo sy'n deillio o'r mentrau hyn yn cael eu trafod, eu cofnodi a'u hystyried drwy'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r proffesiynau nyrsio, arlwyo a dietegol yn ogystal â chynrychiolwyr cleifion drwy'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol. Daethom o hyd i dystiolaeth hefyd bod y wybodaeth hon yn cael ei lledaenu i wardiau drwy grwpiau is-adrannol a chyfarwyddiaethau.

**58.** Mae materion sy'n deillio o'r grŵp Hanfodion Gofal hefyd yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo. Mae unrhyw faterion sy'n berthnasol i reolwyr wardiau yn benodol yn cael eu sianelu drwy nyrsys is-adrannol. Enghraifft ddiweddar o hyn yw'r drafodaeth yn ymwneud ag amserau bwyd wedi'u diogelu yn ystod cyfarfodydd mis Medi a mis Rhagfyr 2012 o'r Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo.

[5] Arolwg byr sy'n ceisio canfod safbwyntiau amser real ar benderfynyddion allweddol urddas a pharch yw 'Dau funud o'ch amser'.

**59.** Yn ogystal, mae nyrsys is-adrannol hefyd yn derbyn adborth drwy arsylwi ar amserau bwyd sydd wedi'u cyflwyno drwy'r ymweliadau dirybudd. Anfonwyd yr Adroddiad Dinasyddion, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013, i bob isadran hefyd. Mae'r adroddiad yn diffinio'n glir diffygion gwasanaethau arlwyo ar lefel ward. Anfonwyd yr Adroddiad Dinasyddion i'r Bwrdd hefyd ynghyd â'r adroddiad rheolaidd ar brofiad cleifion.

## Mae cyfraniad cleifion at ddatblygu gwasanaethau arlwyo wedi parhau i wella

**60.** Er mwyn datblygu profiadau cadarnhaol cyfraniad cleifion at werthuso bwyd piwrî a bwyd meddal, roedd ein hadroddiad yn 2010 yn argymell y dylai BIP gynnwys cleifion yn llawn wrth ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo.

**61.** Mae cleifion yn cyfrannu at y trafodaethau ehangach yn ymwneud â gwasanaethau arlwyo yn y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo drwy gynrychiolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned; mae cleifion hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r bwydlenni newydd sydd wedi'u cyflwyno ledled BIP.

**62.** Ers ein hadolygiad diwethaf, mae nifer o fwydlenni newydd wedi'u datblygu, eu treialu a'u gweithredu. Mae'r bwydlenni hyn wedi'u gwerthuso gan gleifion a'u diwygio ar sail yr adborth a dderbyniwyd. Mae Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan i fod i gael eu cyflwyno yn 2013, a bu BIP yn rhagweithiol wrth ddatblygu arolwg cleifion i gefnogi'r broses weithredu. Cyhoeddir 400 o arolygon cleifion cyn cyflwyno'r bwydlenni, ac arolwg dilynol a gynhelir ar ôl i'r bwydlenni gael eu sefydlu.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau o waith archwilio lleol 2010

Yn ystod 2010, aethom ati i adolygu arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae casgliadau cyffredinol y gwaith hwnnw wedi'u crynhoi isod.

**Er bod trefniadau arlwyo BIP yn arddangos llawer o arferion da, ein casgliad cyffredinol yw nad oes cysondeb yn y modd y caiff y rhain eu gweithredu mewn ysbytai a rhwng un ysbyty a'r llall. Deillia'r anghysondeb hwn o gyfathrebu gwael rhwng y gwahanol grwpiau o staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, a all effeithio ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.**

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gwasanaeth arlwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) yn cael ei gynllunio'n effeithiol ond gellid ei gryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd;
- mae BIP yn caffael bwyd yn effeithiol ac mae'n gyffredinol dda am reoli cost cynhyrchu ac arlwyo bwyd, ond mae'n gwastraffu llawer gormod o fwyd mewn rhai meysydd;
- mae BIP yn darparu bwyd o ansawdd da i gleifion er y gellid gwella profiad cleifion drwy newid rhai arferion presennol a gwella cyfathrebu rhwng y staff mewn rhai meysydd;
- mae rhai wardiau'n well nag eraill am sicrhau bod arlwyo a maeth yn cefnogi gwellhad cleifion gydag un ward yn perfformio gryn dipyn yn waeth na'r hyn sy'n dderbyniol; ac
- mae boddhad cleifion ag arlwyo mewn ysbytai yn gymharol isel a chan nad yw'n rhannu'r safbwyntiau y mae'n eu casglu gan gleifion rhwng grwpiau o staff, mae BIP yn colli cyfle i ddysgu a gwella.

# Atodiad 2

## Argymhellion o waith archwilio lleol

Yn ystod 2010, aethom ati i adolygu arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r argymhellion a wnaethom o ganlyniad i'r gwaith hwnnw fel a ganlyn:

| | | Statws – Chwefror 2013 |
|---|---|---|
| **Cynllunio strategol a threfniadau rheoli** | | |
| A1 | Sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth fwy ystyrlon am y gwasanaethau arlwyo er mwyn gallu craffu, rheoli risgiau a monitro perfformiad yn effeithiol. | Cyflawnwyd yn rhannol – Mae trefniadau i helpu i graffu ar waith y Bwrdd a rheoli gwasanaethau arlwyo yn gryfach, ond nid yw'r strwythurau presennol yn hwyluso rheoli integredig. |
| A2 | Fel rhan o'r broses o rymuso rheolwyr wardiau yn ôl trefniadau Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu, sefydlu fforwm hanfodion gofal effeithiol sy'n sicrhau bod materion rheoli maeth yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr enghreifftiau niferus o arfer da ac arloesi yn cael eu rhannu. | Cyflawnwyd – Mae BIP wedi sefydlu fforwm Hanfodion Gofal ac mae systemau ar waith i rannu arferion da ac arloesi. |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | | |
| A3 | Cyflwyno polisi clir ar gymorthdalu i bennu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. | Cyflawnwyd yn rhannol – Mae BIP wedi lleihau'r gost o gymhorthdal bwyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gleifion, ond roedd angen camau gweithredu sylweddol o hyd i leihau lefel y cymhorthdal i sero erbyn diwedd mis Mawrth 2013. |
| A4 | Gwella'r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro gwastraff bwyd fel eu bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o brydau heb eu gweini, gan nodi'r potensial i wella systemau presennol fel bod modd gosod targedau gwastraff bwyd. | Cyflawnwyd – Mae BIP wedi datblygu trefniadau monitro gwastraff bwyd, ac mae'r lefel o wastraff ledled BIP yn lleihau. |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward** | | |
| A5 | Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwyo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward. | Cyflawnwyd yn rhannol – Mae BIP wedi cyflwyno hyfforddiant maeth sylfaenol, ond oherwydd absenoldeb salwch, nid yw wedi cyflwyno'r hyfforddiant ar gyfer staff arlwyo ar y ward yn llawn eto. |

| | Statws – Chwefror 2013 |
|---|---|
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | |
| A6 Cyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar bob ward lle byddai hynny'n briodol a sefydlu trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. | Cyflawnwyd yn rhannol – Mae systemau cydymffurfiaeth ar waith, ond nid yw amserau bwyd wedi'u diogelu wedi cael eu sefydlu'n llawn eto. |
| A7 Fel rhan o'r strategaeth maeth ac arlwyo newydd, gweld beth fyddai manteision gwneud mwy o ddefnydd o gynorthwywyr deietegol. | Ni chyflawnwyd – Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran gwneud mwy o ddefnydd o gynorthwywyr deietegol ledled BIP. |
| A8 Fel rhan o'r strategaeth arlwyo newydd, ceisio cryfhau a chyflymu'r gwasanaeth amser bwyd drwy sicrhau bod mwy o staff ar gael neu drwy gael y staff nyrsio i gymryd mwy o ran. | Cyflawnwyd yn rhannol – Er bod staff nyrsio yn cymryd mwy o ran, mae cyflymder y gwasanaeth yn peri problemau o hyd, gan arwain at bryderon ynglŷn â thymheredd bwyd. |
| A9 Trwy'r fforwm hanfodion gofal, monitro effeithiolrwydd y system hambwrdd coch, y dull o'i weithredu a'i ddatblygiad, a'r systemau goleuadau traffig newydd. | Cyflawnwyd yn rhannol – Mae BIP bellach yn monitro defnydd o'r system hambwrdd coch, ac er bod y dull gweithredu yn anghyson o hyd, mae camau'n cael eu rhoi ar waith i leihau dryswch ymysg staff. |
| A10 Sefydlu trefniadau monitro sy'n mesur cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd, ynghyd ag effeithiolrwydd y broses o adolygu siartiau. | Cyflawnwyd yn rhannol – Mae monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maeth yn rheolaidd newydd ddechrau. |
| A11 Gwella'r offeryn asesu maeth i gynnwys asesiad o iechyd y geg a'r gallu i gyfathrebu. | Cyflawnwyd yn rhannol – er bod cynnwys iechyd y geg a chyfathrebu yn yr offeryn maeth yn ddadleuol, mae BIP yn sicrhau nad yw'r materion hyn yn cael eu diystyru. |
| A12 Yn YALl, gwella prosesau cyfathrebu a threfniadau monitro ansawdd y gwasanaeth arlwyo i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd o fwyd cywir ar gyfer eu hanghenion deietegol bob amser. | Cyflawnwyd – Mae cyfathrebu ynglŷn ag anghenion deietegol unigol wedi gwella yn y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r cynllun gwelyau. |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | |
| A13 Gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y gwasanaeth arlwyo a rheolwyr wardiau drwy gynnwys y trefniadau presennol sy'n cael eu defnyddio i gael barn cleifion ar y gwasanaeth. | Cyflawnwyd – Mae BIP wedi cryfhau'r broses o rannu gwybodaeth am safbwyntiau cleifion rhwng rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwyo. |
| A14 Cynnwys cleifion yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth arlwyo gan adeiladu ar brofiadau cadarnhaol diweddar a gafwyd o'u cynnwys wrth werthuso bwyd piwrî a bwyd meddal. | Ni chyflawnwyd – Mae cynnwys cleifion yn y broses o ddatblygu gwasanaethau arlwyo wedi parhau i wella. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk